

## Data Cyfrifiad 2021 ar gyfer Sir Gaerfyrddin – Poblogaeth Preswyl Arferol

	Sir Gaerfyrddin				Cymru				Cymru a Lloegr			
	2011		2021		2011		2021		2011		2021	
<b><u>Poblogaeth breswyl arferol</u></b>	183,777		187,900		3,063,456		3,107,500		56,075,912		59,597,300	
<b>Gwrywod</b>	89,837	48.9%	91,700	48.8%	1,504,228	49.1%	1,521,000	48.9%	27,573,376	49.2%	29,177,200	49.0%
<b>Benywod</b>	93,940	51.1%	96,200	51.2%	1,559,228	50.9%	1,586,600	51.1%	28,502,536	50.8%	30,420,100	51.0%
<b><u>Nifer y cartrefi ag o leiaf un preswlydd arferol</u></b>	78,829		81,000		1,302,676		1,347,100		23,366,044		24,782,800	
<b>Dwysedd poblogaeth (nifer y preswylwyr arferol fesul cilomedr sgwâr)</b>	78		79		148		150		370		395	

### Dadansoddiad:

*Noder: Mae'r canlyniadau cyntaf Cyfrifiad 2021 yn cynnwys amcangyfrifon o'r boblogaeth a chartrefi wedi'u talgrynnu.*

- Ar Ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, roedd 59,597,300 o bobl yn byw yng Nghymru a Lloegr. Mae hyn dros 3.5 miliwn yn fwy (6.3%) nag yn 2011 a dyma'r boblogaeth cyfrifiad fwyaf a gofnodwyd erioed.*
- Maint y boblogaeth breswyl arferol yn Sir Gaerfyrddin oedd 187,900 a 3,107,500 yng Nghymru..*
- Roedd poblogaeth Sir Gaerfyrddin wedi tyfu ychydig dros 4,000 (2.2%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, o'i gymharu â 44,000 (1.4%) ar gyfer Cymru gyfan ac ychydig dros 3.5m yng Nghymru a Lloegr (6.3%). Mae'r cynnydd mwyaf yn y boblogaeth yng Nghymru yng Nghasnewydd (9.5%) a Chaerdydd (4.7%), gyda Cheredigion yn gweld gostyngiad o 5.8%. Sir Gaerfyrddin sydd â'r bedwaredd boblogaeth uchaf yng Nghymru o hyd..*
- Roedd 96,200 o fenywod (51.2% o'r boblogaeth) a 91,700 o ddynion (48.8%) yn Sir Gaerfyrddin. Mae hyn yn rhaniad tebyg i'r Cyfrifiad blaenorol ac yn debyg i Gymru a Lloegr a Chymru.*
- Roedd 81,000 o aelwydydd yn Sir Gaerfyrddin gydag o leiaf un preswlydd arferol yng Nghymru ar Ddiwrnod y Cyfrifiad; mae hyn yn gynydd o 2,200 (2.8%) ers 2011, gyda chynnydd o 44,400 (3.4%) yng Nghymru a 1,417,000 (6.1%) yng Nghymru a Lloegr.*
- Ceir un person ar gyfer pob darn o dir maint cae pêl-droed yng Nghymru. Roedd tua 150 o drigolion fesul cilomedr sgwâr yng Nghymru yn 2021, i fyny o 148 o drigolion fesul cilomedr sgwâr yn 2011. O 2021, Sir Gaerfyrddin yw'r pumed sir lleiaf poblog yng Nghymru, gydag ardal sy'n cyfateb i tua dau gae pêl-droed fesul preswlydd. Caerdydd yw'r awdurdod lleol mwyaf poblog yng Nghymru sy'n cyfateb i tua 18 o bobl ar bob cae.*